| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **BWRDD PENSIWN** |
| DYDDIAD: | **29 CHWEFROR 2024** |
| TEITL: | **CYNLLUN HYFFORDDIANT** |
| PWRPAS: | **Derbyn diweddariad am hyfforddiant 2023/24 a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2024/25 gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw i ddiweddaru'r Bwrdd am yr hyfforddiant sydd wedi digwydd yn 2023/24 a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2024/25 ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau.

## 2. ADRODDIAD LLYWODRAETHU DA

2.1 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun Lloegr a Chymru yn nodi nifer o argymhellion a fyddai'n gwella llywodraethu'r CPLlL, ac yn cyrraedd lefel o gydraddoldeb o ran llywodraethu ar draws cronfeydd CPLlL yng Nghymru a Lloegr.

2.2 Mae'r adroddiad Llywodraethu Da yn argymell i:

*'Gyflwyno gofyniad yn y Canllawiau i unigolion allweddol o fewn y CPLlL, gan gynnwys Swyddogion CPLlL a Phwyllgorau Pensiynau, gael y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.'*

Ffocws allweddol yr adolygiad Llywodraethu Da oedd bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor lefel ddigonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol.

*'Dylai Awdurdodau gweinyddol gyhoeddi polisi sy'n nodi eu dull o gyflwyno, asesu a chofnodi cynlluniau hyfforddi i fodloni'r gofynion hyn.'*

2.3 Mae'r Gronfa felly wedi llunio polisi er mwyn cyflawni'r gofynion yma: Polisi Sgiliau a Gwybodaeth 2022 (cronfabensiwngwynedd.cymru)

## 3. HYFFORDDIANT 2023/24

3.1 Mae'r cynllun a fabwysiadwyd yn 2023/24 yn atodiad 1 gyda'r cynnydd wedi ei nodi. Yn ychwanegol i'r Cynllun hyfforddiant mae'r swyddogion a aelodau'r bwrdd a pwyllgor wedi mynychu nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn.

Roedd gofyniad i aelodau newydd y Pwyllgor a Bwrdd fynychu y cwrs Hanfodion CPLlL flwyddyn diwethaf ond yn anffodus oherwydd streiciau trên a newid mewn lleoliadau, ni wnaeth pob aelod lwyddo i fynychu. Mae'r holl aelodau bellach wedi cwblhau'r gofyniad hwn yn ystod y flwyddyn.

O fewn y Cynllun yn ogystal mae disgwyliad i swyddogion fynychu cwrs Cau Cyfrifon CIPFA, ond oherwydd dim newid mewn rheoliadau cyfrifo nid oedd hyn yn angenrheidiol eleni.

## 4. CYNLLUN HYFFORDDIANT 2024/25

4.1 Mae cynllun hyfforddiant ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 2.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn yr adroddiad a chraffu Cynllun Hyfforddiant 2024/25 gan gynnig unrhyw argymhelliad i'r Pwyllgor Pensiynau.